

## ADRODDIAD I'R CABINET

26 IONAWR 2021

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Cyllideb Refeniw 2020/21 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2020

**Swyddog cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

### 1. Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2020 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Nodi effaith ariannol Covid19, sydd yn gyfuniad o gostau ychwanegol, colledion incwm a llithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth dilyffethair i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng.
- Nodi fod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Theuluoedd eleni. Mae'r gwaith o gael gwell dealltwriaeth o'r materion yn parhau.
- Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u egluro yn **Atodiad 2**).
  - Ar gyllidebau Corfforaethol, fod:
    - Tanwariant o (£478k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei drosglwyddo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
    - Tanwariant net o (£1,312k) ar gyllidebau Corfforaethol yn mynd i falansau cyffredinol y Cyngor i gynorthwyo i wynebu'r her ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor ar ddiwedd 2020/21 yn arbennig felly yn sgil argyfwng Covid19.
  - Fod derbyniadau grant ar gyfer digolledu gwariant ychwanegol a cholledion incwm cysylltiedig â'r argyfwng Covid19 gan y Llywodraeth yn cael ei ddyrannu i'r adrannau perthnasol yn unol â'r hyn a nodir yn **Atodiad 1**.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynir yr adroddiad ddiwedd Tachwedd yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2020/21, ac amlinellir grynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**.

Yn **Atodiad 2**, rhoddir fanylion pellach yn ymwneud â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

## 3. Covid19

Fel yr ydym eisoes wedi adrodd i Gabinet 19 Mai 2020 a 13 Hydref 2020, mae effaith ariannol yr argyfwng Covid19 yn sylweddol i'r Cyngor, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol ynghyd â cholledion incwm, sydd werth dros £13 miliwn erbyn diwedd Tachwedd. Gweler y manylion yn **Atodiad 3**.

Bu i Lywodraeth Cymru sefydlu cronfa caledi tuag at ddiogolledu costau a cholledion incwm Awdurdodau Lleol. Yng Ngwynedd mae ceisiadau misol gwerth dros £7.1 miliwn wedi eu cyflwyno gan y cyfrifwyr i Lywodraeth Cymru, i ddiogolledu'r Cyngor am y gwariant ychwanegol am y cyfnod hyd at ddiwedd Tachwedd, gyda chyllid o bron i £6 miliwn eisoes wedi ei dderbyn.

O ran y colledion incwm, roedd gwerth y ceisiadau am hanner cyntaf y flwyddyn dros £5.1 miliwn, gyda £4.8 miliwn eisoes wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

Mae effaith y costau ychwanegol a'r colledion incwm i'w gweld gan yr adrannau yn **Atodiad 1 a 2**, gyda'r gor/tanwariant adrannol yn cael eu hadrodd efo ac heb y cymorth grant gan y Llywodraeth.

## 4. Sefyllfa Arbedion

Fel yr ydym wedi rhybuddio ym mhob adolygiad ers yr un diwedd Awst 2019 (Cabinet 15 Hydref 2019), mae gwireddu arbedion yn mynd yn anoddach gydag arwyddion amlwg bellach fod trafferthion cyflawni arbedion mewn rhai meysydd, gyda gwerth dros £1.8 miliwn gan yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant, £811k gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefiol a £688k gan yr Adran Plant a Theuluoedd. Wrth geisio isafu'r ardrawiad ar drigolion Gwynedd drwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd, mae'n profi i fod yn llawer anoddach na thorri gwasanaethau.

Gan ein bod eisoes wedi rhagweld problem gwireddu arbedion, rhoddwyd darpariaeth gorfforaethol i'r pwrpas yng nghyllideb 2020/21, gyda £1.6 miliwn ar gael i leddfu'r sefyllfa.

Gyda blaenoriaethau eraill i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd wedi derbyn sylw dros gyfnod yr argyfwng ac felly absenoldeb trefniadau arferol herio perfformiad ac arbedion dros y cyfnod, bu i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid gyfarfod gyda'r Aelodau Cabinet a'u Penaethiaid Adran i drafod y cynlluniau arbedion yn fanwl gan ystyried sut i ailafael yn y dasg o gyflawni'r arbedion, fel bod modd i'r Cyngor symud ymlaen efo'r rhaglen arbedion er gwaethaf yr argyfwng. Bydd sefyllfa'r arbedion yn cael ei ystyried ymhellach yn ystod mis Ionawr.

## **5. Adrannau'r Cyngor**

Yr hyn sydd yn amlwg iawn eleni yw'r pwysau sylweddol sydd yn wynebu'r maes gofal a'r maes gwastraff. Mae'r prif faterion fel a ganlyn:

### **5.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

Mae effaith Covid19 wedi cael ardrawiad sylweddol ar yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant eleni sydd werth dros £3 miliwn erbyn diwedd Tachwedd, gyda grant gan Lywodraeth Cymru gwerth £1.7 miliwn eisoes wedi ei dderbyn a'i ddyrannu i'r Adran tuag at y costau ychwanegol perthnasol a £960k pellach i'w ddyrannu fel rhan o'r adolygiad yma a tebygolrwydd o grant ychwanegol am weddill y flwyddyn. Heb ystyried ardrawiad Covid19, rhagwelir gorwariant o £3.3 miliwn eleni gyda methiant i gyflawni arbedion gwerth £1.8 miliwn yn ffactor sylweddol o'r gorwariant.

Eleni, bu i'r adran dderbyn gwerth dros £1.8 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar y gyllideb 2020/21 gan gynnwys i'r maes Anabledd Dysgu, Gofal Preswyl yn Darparu a Phreswyl a Nyrsio Pobl Hŷn.

Yn dilyn gwaith i ymateb i'r argyfwng, mae'r gwaith o gael gwell dealltwriaeth o'r materion cymhleth yng ngofal oedolion yn cael sylw.

### **5.2 Adran Plant a Theuluoedd**

Er fod bron i £2 miliwn o arian ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r Adran Plant a Theuluoedd yn 2020/21 ar gyfer cwrdd â'r pwysau cynyddol, rhagwelir gorwariant o £2.5 miliwn ar gyfer yr Adran. Mae methiant i wireddu £688k o arbedion yn fater sydd yn parhau i fod angen datrysiaid.

Yr ystadegau diweddaraf yn cadarnhau y bu cynnydd pellach yn y galw am wasanaethau, yn arbennig felly yn y maes lleoliadau ac Ôl-16. Mae'r sefyllfa o gynnydd yn y gwariant yn y maes plant yn bryderus.

### 5.3 Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Y maes bwrdeistrefol yn parhau i fod yn gorwario yn sylweddol, gyda phroblemau gorwariant yn y maes casglu a gwaredu gwastraff. Mae'r adran yn cael trafferthion gwireddu arbedion gwerth £811k mewn nifer o feysydd. Mae'r adran hefyd wedi wynebu costau ychwanegol sylweddol yn ymwneud â Covid19 i gydymffurfio efo'r rheolau, gyda Llywodraeth Cymru eisoes wedi digolledu am fisoedd cychwynnol y flwyddyn gyda'r disgwyliad y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i'n digolledu am y costau ychwanegol am weddill y flwyddyn.

### 5.4 Corfforaethol

Rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2020/21 yn gyfrifol am gynnyrch treth ychwanegol ar Dreth Cyngor ac hefyd yn cyfrannu at y tanwariant ar Ostyngiadau Treth Cyngor, ynghyd â derbyniad grant. Arbedion ymlaen llaw a phwysau ar nifer o gyllidebau gan gynnwys costau cyfalaf, ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd eleni.

## 6. Casgliad Cyffredinol

Eleni, mae methiant i wireddu arbedion ynghyd ag effaith ariannol Covid19 yn amlwg iawn ar y ffigyrau. Er fod cyfansymiau **Atodiad 1** yn awgrymu rhagolygon o ddiffyg o £4.7 miliwn, disgwylir ddyraniadau grantiau ychwanegol pellach erbyn diwedd y flwyddyn fydd o leiaf £3 miliwn o gronfa caledi Covid19 Llywodraeth Cymru. Bydd hyn ynghyd â'r £1.3 miliwn a roddir i falansau cyffredinol y Cyngor fel rhan o'r adolygiad yma, yn cyfarch mwyafrif y bwloch ariannol a wynebir gan y Cyngor eleni.

## 7. Camau nesaf ac amserlen

Bydd y cyfrifwyr yn parhau i hawlio am y costau ychwanegol a'r colledion incwm perthnasol i Covid19 gan Lywodraeth Cymru.

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet ganol Mai 2021 ar sefyllfa diwedd y flwyddyn ariannol 2020/21.

**Barn yr aelod lleol**  
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**  
Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**  
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**

- Atodiad 1 - Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau
- Atodiad 2 - Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol
- Atodiad 3 - Grant gan y Llywodraeth yn Sgil Argyfwng Covid19